



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb

Rheoli ansawdd aer a sŵn lleol yng Nghymru

Mawrth 2017

Ymgynghoriad ar reoli ansawdd aer a sŵn lleol yng Nghymru

Crynodeb ac ymateb Llywodraeth Cymru

Cynnwys

Cwestiwn 6.1 – symleiddio'r system rheoli ansawdd aer lleol	2
Cwestiwn 6.2 – cydweithio rhwng awdurdodau lleol	3
Cwestiwn 6.3 – gorfodi terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau	4
Cwestiwn 6.4 – templed adrodd newydd.....	6
Cwestiwn 6.5 – cynnwys adroddiadau cynnydd blynyddol	7
Cwestiwn 6.6 – cynnwys cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol.....	8
Cwestiwn 6.7 – blaenoriaethu llygryddion allweddol	10
Cwestiwn 6.8 – amserlen weithredu.....	11
Cwestiwn 6.9 – lleihau cysylltiad y boblogaeth â llygredd	12
Cwestiwn 6.10 – gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill	13
Cwestiwn 6.11 – canllawiau ategol	14
Cwestiwn 6.12 – arian grant	15
Cwestiwn 6.13 – penodau awdurdod lleol yn y cynllun gweithredu ynghylch sŵn.....	16
Cwestiwn 6.14 – rowndiau mapio sŵn cenedlaethol yn y dyfodol.....	17
Cwestiwn 6.15 – asesiadau o lesiant lleol.....	19
Adolygu polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol	19
Sylwadau eraill a ddaeth i law.....	20

Cwestiwn 6.1 – symleiddio'r system rheoli ansawdd aer lleol

6.1 *Fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu symleiddio'r system Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru drwy:*

- *symud oddi wrth y cylch tair blynedd bresennol o asesiadau diweddarau a sgrinio bob tair blynedd gydag adroddiadau cynnydd yn y ddwy flynedd rhyngddynt, a thuag at system symlach lle bydd gofyn paratoi un adroddiad cynnydd blynyddol;*
- *newid y dyddiad cyflwyno ar gyfer adroddiadau cynnydd blynyddol o 30 Ebrill i 30 Mehefin, er mwyn osgoi'r pwysau gwaith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;*
- *dileu'r gofyniad am asesiad manwl lle bydd gan yr Awdurdod Lleol ddigon o wybodaeth eisoes i warantu datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer, a thrwy hynny bydd modd canolbwyntio adnoddau'n gyflymach ar ddatblygu cynllun gweithredu effeithiol ynghylch ansawdd aer lleol.*

Credwn y bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn ysgafnhau'r baich ar Awdurdodau Lleol heb wneud y drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn llai effeithiol. A ydych yn cytuno?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae consensws ymhlith yr ymatebwyr o blaid newid i fformat adroddiad blynyddol sengl yn hytrach na chynnal asesiadau diweddarau sgrinio a llunio adroddiadau cynnydd am yn ail flwyddyn. Mae consensws hefyd o blaid cael gwared ar y gofyniad i gynhyrchu asesiad manwl cyn datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer newydd. Bydd Llywodraeth Cymru, felly, yn gweithredu'r pwynt bwled gyntaf a'r trydydd pwynt bwled fel y cynigir yn y ddogfen ymgynghori.

Nododd rhai o'r ymatebion i gwestiwn 6.3 y gall y dyddiad cau, sef 30 Mehefin, fod bron mor anodd i Awdurdodau Lleol ei gyflawni â'r dyddiad cau presennol, sef 30 Ebrill. Awgrymodd ymatebion eraill efallai fod cyfnod gras o chwe mis ar gyfer cyflwyno adroddiadau'n hwyr cyn i'r Gweinidog ymyrryd yn rhy hael. Ar ôl ystyried teilyngdod y gwahanol ddadleuon a gyflwynwyd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid y dyddiad cau ar gyfer adroddiadau cynnydd blynyddol yng Nghymru i 30 Medi. Fodd bynnag, dim ond tri mis o gyfnod gras fydd cyn i'r Gweinidog ymyrryd. Bydd y dull hwn yn rhoi mwy o amser i Awdurdodau Lleol wirio a chasglu eu data monitro, ac eto yn ei gwneud yn glir bod methu â darparu gwybodaeth am ansawdd aer ar gyfer blwyddyn benodol o fewn deuddeng mis i'r flwyddyn ddod i ben yn annerbyniol.

Cwestiwn 6.2 – cydweithio rhwng awdurdodau lleol

6.2 *Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu annog Awdurdodau Lleol i ystyried gwella effeithlonrwydd drwy rannu arbenigedd, cronni adnoddau a chydweithio ar weithgareddau monitro, strategaethau ansawdd aer lleol a pharatoi adroddiadau cynnydd blynyddol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynnu cael adroddiad cynnydd blynyddol ar wahân ar gyfer pob Awdurdod Lleol, a byddai'n derbyn adroddiadau cynnydd blynyddol a/neu strategaethau ansawdd aer lleol sy'n cynnwys dau Awdurdod Lleol neu ragor.*

A ydych yn cytuno bod lle i rai Awdurdodau Lleol weithio'n fwy effeithlon drwy gynhyrchu adroddiadau cynnydd blynyddol a/neu strategaethau ansawdd aer lleol ar y cyd?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd bron pob un o'r ymatebion a gafwyd yn cefnogi'r cynnig hwn, ond mae nifer ohonynt yn rhybuddio rhag hyrwyddo un dull i bawb mewn perthynas â chydweithio rhwng Awdurdodau Lleol. Mynegodd lleiafrif bach o ymatebwyr bryderon ynghylch diffyg atebolrwydd os bydd adroddiadau a strategaethau yn cael eu cynhyrchu ar y cyd.

Yn y tymor byr, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu'r cynnig hwn yn y canllawiau polisi rheoli ansawdd aer lleol diwygiedig, gan ei gwneud yn glir bod lle i gydweithio. Bydd y canllawiau diwygiedig hefyd yn adlewyrchu'r cyfeiriad yn y tymor hwy o ran diwygio llywodraeth leol yng Nghymru a chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith rhanbarthol gorfodol a systematig mewn nifer o feysydd, gan gynnwys diogelu'r cyhoedd. Bydd y dyletswyddau statudol i gynnal gweithgaredd Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn aros gyda'r Awdurdodau Lleol unigol ar hyn o bryd. Bydd y trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau ansawdd aer Awdurdod Lleol yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol.

Mewn ymateb i awgrym lechyd Cyhoeddus Cymru o roi'r gorchwyl o gynhyrchu strategaethau ansawdd aer rhanbarthol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i hyn fod yn ofyniad. Fodd bynnag, bydd y canllawiau polisi Rheoli Ansawdd Aer Lleol diwygiedig yn ei gwneud yn glir y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu gweld cyrff cyhoeddus yn cydweithio ar strategaethau o'r fath ac, yn dibynnu ar y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg o'u hasesiad llesiant, gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddewis canolbwyntio ar y mater hwn a/neu fynd i'r afael ag ef fel rhan o ystyriaeth ehangach.

Cwestiwn 6.3 – gorfodi terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau

6.3 *Nid yw'n dderbyniol bod Awdurdodau Lleol yn methu â chyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol a chynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol mewn pryd, a chydymffurfio â'r canllawiau statudol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl perfformiad ar lefel uchel a chyson drwy Gymru ac felly mae'n cynnig rhoi'r system a gyflwynwyd yn yr Alban yn ddiweddar ar waith¹. Ac eithrio lle bydd estyniad wedi'i drafod ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru:*

- Os bydd adroddiad cynnydd blynyddol (sydd i fod i gyrraedd ar 30 Mehefin) neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol (sydd i fod i gyrraedd 18 mis ar ôl datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer) ddau fis yn hwyr, anfonir llythyr atgoffa at yr Awdurdod Lleol.*
- Os bydd adroddiad cynnydd blynyddol neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol dri mis yn hwyr, anfonir llythyr rhybudd at yr Awdurdod Lleol.*
- Os bydd adroddiad cynnydd blynyddol neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol bedwar mis yn hwyr, anfonir llythyr rhybudd terfynol at yr Awdurdod Lleol.*
- Os bydd adroddiad cynnydd blynyddol neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol chwe mis yn hwyr, bydd yr Awdurdod Lleol yn cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 85(3) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.*

A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru orfodi dyddiadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol a chynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol yn y dull a ddisgrifiwyd?

¹ Gweler <http://www.gov.scot/publications/2016/03/9717> .

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd yr ymatebion i'r cynnig hwn wedi'u rhannu'n fras rhwng Awdurdodau Lleol, a oedd yn cydnabod pwysigrwydd cyflwyno adroddiadau'n amserol ond yn pwysleisio'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chadw at y terfynau amser, ac ymatebwyr eraill, a oedd yn argymhell gorfodi terfynau amser yn fwy llym. O ran adroddiadau cynnydd blynyddol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth am ansawdd aer ar gyfer blwyddyn benodol i'r cyhoedd o fewn deuddeng mis i'r flwyddyn ddod i ben. Dylai fod modd cyflawni hyn, yn enwedig os bydd Awdurdodau Lleol yn cyfuno eu hadnoddau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na fydd rhai yn gallu cyrraedd y dyddiad targed a gynigiwyd yn wreiddiol, sef 30 Mehefin. Felly, bydd 30 Medi yn cael ei bennu'n ddyddiad cau, ond gyda chyfnod gras o ddim ond tri mis sy'n cynnwys nodyn atgoffa cychwynnol, llythyr rhybudd ar ôl mis a chyfarwyddyd gan y Gweinidog ar ddiwedd tri mis. Mewn perthynas â chynlluniau gweithredu, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r cynnig fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 6.4 – templed adrodd newydd

6.4 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu perchnogi'r templed ar gyfer yr adroddiadau cynnydd blynyddol, er mwyn sicrhau ei fod yn fwy cyson â pholisïau Cymru. Mae'r adborth gan Awdurdodau Lleol yn awgrymu bod y fformat presennol yn draul ar amser o ran cofnodi data. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion pendant gan Awdurdodau Lleol ar gyfer gwella'r templed, a hynny'n ddelfrydol drwy gydweithio drwy gyfrwng Fforwm Ansawdd Aer Cymru i gytuno ar batrwm haws ei ddefnyddio.

Os ydych yn Awdurdod Lleol, a allwch chi awgrymu ffyrdd o wneud fformat templed yr adroddiad cynnydd blynyddol yn haws ei lenwi heb i hynny ei wneud yn llai defnyddiol i ddarllenwyr?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymatebion i'r cynnig hwn yn cynnwys nifer o awgrymiadau defnyddiol, ac yn dangos awydd ymysg timau ansawdd aer Awdurdodau Lleol i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y templed newydd yn gywir. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion hyn ynghyd â'r ymatebion i gwestiwn 6.8, sy'n mynegi amheuan ynghylch ymarferoldeb cytuno ar y templed adrodd newydd mewn pryd iddo gael ei ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol yn 2017. Yng ngoleuni'r pryderon hyn a godwyd mewn perthynas ag amseru, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio'r templed presennol ar gyfer yr adroddiad cynnydd yn 2017 ac yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Fforwm Ansawdd Aer Cymru drwy gydol 2017 i ddatblygu templed newydd ar gyfer adroddiad cynnydd blynyddol i'w gyflwyno i'w ddefnyddio yn 2018.

Yn ystod y gwaith hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o fabwysiadu dull "data agored" tuag at adrodd ar ansawdd aer, gan symud y pwyslais tuag at ofyniad i gyhoeddi data ansawdd aer mewn fformat agored hygyrch i'r cyhoedd.

Cwestiwn 6.5 – cynnwys adroddiadau cynnydd blynyddol

6.5 *O ran ei gynnwys, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai pob adroddiad cynnydd Rheoli Ansawdd Aer Lleol blynyddol o 2017 ymlaen ddatgan:*

- a yw llygredd aer a/neu sŵn yn elfen o amcanion llesiant yr Awdurdod Lleol, ac os ydyw, ar ba ffurf, a pha gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion llesiant hynny hyd yn hyn;*
- pa bolisiâu sydd gan yr Awdurdod Lleol ar waith i leihau lefelau cyfartalog NO₂, PM_{2.5} PM₁₀ a llygredd sŵn mewn aneddiadau ledled yr Awdurdod Lleol, gan ystyried dangosyddion ansawdd aer Cymru (gweler Atodiad A) a'r mapiau sŵn cenedlaethol;*
- sut mae gwaith monitro Rheoli Ansawdd Aer Lleol, dangosyddion ansawdd aer Cymru a'r mapiau sŵn cenedlaethol wedi llywio, neu sut y byddant yn llywio, asesiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o lesiant lleol.*

A ydych yn cytuno y dylai adroddiadau cynnydd blynyddol gynnwys y wybodaeth hon?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth eang i'r cynnig hwn mewn egwyddor, er bod swyddogion ansawdd aer Awdurdodau Lleol wedi mynegi pryder y gallai hyn wneud y dyletswyddau adrodd ar gynnydd blynyddol yn fwy beichus.

Dylai fod yn haws i swyddogion gael gafael ar y wybodaeth y gofynnir amdani yma gan fod y gofynion ar gyfer integreiddio a chydweithio sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn dod yn rhan annatod o'u sefydliadau. Yna, dylai'r gorchwyl i swyddogion grynhoi'r pwyntiau allweddol yn eu hadroddiad cynnydd blynyddol fod yn syml. Mae'r holl mae Llywodraeth Cymru yn ceisio yw datganiadau clir o ran y tri phwynt bwled yn y cwestiwn ymgynghori uchod, a all fod yn fyr os nad oes dim i'w adrodd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod os nad yw llinellau cyfathrebu o fewn Awdurdod Lleol yn gweithredu cystal ag y dylent, gallai'r wybodaeth y gofynnir amdani yma fod yn fwy beichus i swyddogion gael gafael arni. Gall hyn olygu rhywfaint o waith ychwanegol i swyddogion yn y tymor byr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r cynnig fel y'i drafftwyd. O ran eglurhad mewn ymateb i bwyntiau a wnaed yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ystyr "llygredd sŵn" yma yw sŵn amgylcheddol sy'n cael ei greu gan ffynonellau llygredd aer, yn enwedig trafndiaeth a diwydiant.

Cwestiwn 6.6 – cynnwys cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol

6.6 *At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai unrhyw gynllun gweithredu newydd ynghylch ansawdd aer neu unrhyw un sy'n cael ei ddiweddarau o 2017 ymlaen ddweud:*

- sut mae camau'n cael eu datblygu, nid dim ond gyda golwg ar sicrhau cydymffurfiaeth dechnegol â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol, ond hefyd gyda golwg ar sicrhau cymaint o gyfraniad ag y bo modd at ostwng lefelau cyfartalog NO₂, PM_{2.5}, PM₁₀ a llygredd sŵn mewn aneddiadau ar draws yr Awdurdod Lleol, a thrwy hynny sicrhau'r lles gorau i iechyd y cyhoedd;*
- sut mae'r cynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol yn gyson ag amcanion cynllun llesiant lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*

A ydych yn cytuno y dylai cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol gynnwys y wybodaeth hon?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cytunodd yr ymatebwyr yr ymgynghoriad, mae angen i leihau amlygiad y boblogaeth i lygredd aer ochr yn ochr â sicrhau cydymffurfiaeth â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Maent hefyd yn cytuno cydweithio yn bwysig. Fodd bynnag, Awdurdodau Lleol rhybuddio yn erbyn gwneud eu dyletswyddau cynllunio gweithredu yn fwy beichus

Nid yw Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai Awdurdodau Lleol allu dangos gostyngiadau mewn llygredd aer a sŵn ar draws eu tiriogaeth gyfan drwy fesur y gostyngiadau a'u priodoli i gynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol. Maent yn cael eu, fodd bynnag, yn cael eu gofyn i ffactor unrhyw fanteision posibl yn nhermau ehangach leihau llygredd yn yr aer i mewn i'r dethol a blaenoriaethu mesurau yn eu cynlluniau gweithredu. Dylai hyn ffordd o feddwl yn dod yn naturiol dros amser wrth i ffyrdd o weithio a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dod yn fwy cyffredin o fewn Awdurdodau Lleol. Wrth weithio yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy, Awdurdodau Lleol dylai, fel mater o gwrs, yn edrych i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd ar gyfer buddion ehangach sy'n codi o'u gweithgareddau, gan gynnwys y canlyniadau iechedd y cyhoedd o sut y maent yn dewis a blaenoriaethu camau gweithredu cynlluniau ansawdd aer lleol

Os nad yw cynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol yn cyd-fynd yn naturiol ag unrhyw un o'r amcanion yng nghynllun llesiant lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, dylid nodi hyn yn glir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r cynnig fel y'i drafftwyd. Fel gyda chwestiwn 6.5, ystyr "llygredd sŵn" yma yw sŵn amgylcheddol sy'n cael ei greu gan ffynonellau llygredd aer, yn enwedig trafnidiaeth a diwydiant.

Cwestiwn 6.7 – blaenoriaethu llygryddion allweddol

6.7 *Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cadw'r holl amcanion ansawdd aer cenedlaethol sydd yn y rheoliadau ar hyn o bryd, ond nid yw'n disgwyl i Awdurdodau Lleol dreulio amser ac adnoddau'n monitro ac yn adrodd am ddata ynghylch llygryddion nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn destun pryder cenedlaethol onid oes rhesymau lleol penodol dros wneud hynny.*

A ydych yn cytuno y dylid cadw'r holl amcanion cenedlaethol presennol ar gyfer ansawdd aer ond annog Awdurdodau Lleol i ganolbwyntio ar NO₂ a deunydd gronynnol yn unig?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cynnig hwn, gan adlewyrchu tensiwn dealladwy rhwng cydnabod yr angen i ganolbwyntio adnoddau cyfyngedig ar y llygryddion y rhoddir y flaenoriaeth uchaf iddynt ac awydd i barhau i fonitro ac adrodd ar gyfres ehangach o lygryddion a allai beri pryder.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai amser ac adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Awdurdodau Lleol ar lygryddion risg is o bosibl gael ei ddefnyddio i sicrhau gwell budd i'r cyhoedd os cânt eu hail-aseinio i fynd i'r afael â'r materion ansawdd aer hysbys a pharhaus sy'n gysylltiedig ag NO₂ a deunydd gronynnol. O ran cynnig lechyd Cyhoeddus Cymru i dynhau'r amcanion ansawdd aer presennol, byddai hyn yn arwain yn anochel at nifer fwy o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a/neu ardaloedd mwy o faint, a fyddai'n lledaenu adnoddau cyfyngedig Awdurdodau Lleol ar gyfer monitro a chreu cynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol yn deneuach nag a wneir ar hyn o bryd gan symud y ffocws o'r ardaloedd a nodir fel rhai lle mae'r lefelau uchel o lygredd aer.

Gan dderbyn bod yn rhaid gwneud dewisiadau anodd, bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r newid a gynigir yn yr ymgynghoriad, gan ofyn am ddim ond adroddiadau rheolaidd ar NO₂, PM₁₀ ac unrhyw waith monitro PM_{2.5} y mae Awdurdodau Lleol yn dymuno ymgymryd ag ef yn wirfoddol. Mae monitro ansawdd aer cenedlaethol a rhwydwaith modelu yn parhau i ddarparu data ar ystod ehangach o lawer o lygryddion, a bydd y templed newydd ar gyfer yr adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei gynllunio i ganiatáu i Awdurdodau Lleol adrodd ar unrhyw lygryddion eraill y maent yn eu hystyried sydd o bryder lleol penodol.

Mae strategaethau lleol neu ranbarthol ynglŷn ansawdd aer, trafnidiaeth gynaliadwy ac yn cynnig seilwaith gwyrdd ymagweddau a allai fod yn gost-effeithiol i wella ansawdd yr aer y tu allan i Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer presennol. Gall mesurau lleol neu ranbarthol yn gysylltiedig i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus â chynlluniau lles ac ystyried manteision posibl dros ardaloedd eang pan ddewis a blaenoriaethu gweithredoedd gyda golwg ar gynlluniau ansawdd aer lleol.

Cwestiwn 6.8 – amserlen weithredu

6.8 *A dibynnu ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi'r holl newidiadau uchod ar waith drwy gyhoeddi'r canllawiau polisi newydd ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer Lleol ddechrau 2017, ynghyd â thempled newydd ar gyfer yr adroddiad cynnydd blynyddol. Caiff y rhain eu cyhoeddi o leiaf dri mis cyn y dyddiad cyflwyno newydd, sef 30 Mehefin.*

A ydych yn cytuno y dylem gyflwyno'r newidiadau arfaethedig drwy gyfrwng canllawiau statudol mewn pryd ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dangosodd ymatebion Awdurdodau Lleol i gwestiwn 6.4 frwdfrydedd dros weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu templed newydd ar gyfer yr adroddiad cynnydd blynyddol. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r ymatebion i gwestiwn 6.8 yn mynegi cryn amheuaeth ynghylch yr amserlen weithredu a awgrymir. Wrth edrych yn bellach, mae Llywodraeth Cymru yn cydsynio'r amserlenni arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori wedi bod yn rhy uchelgeisiol. Mynd ar drywydd allai eu harwain at oedi i'r adroddiadau cyhoeddus ar ddata monitro ansawdd aer ar gyfer y flwyddyn 2016 a thempled adroddiad cynnydd blynyddol rhuthro.

Bydd Llywodraeth Cymru, felly, yn cadw'r templed adroddiad cynnydd presennol i Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio yn 2017, ac yn gweithio gyda swyddogion ansawdd aer Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu templed newydd i'w ddefnyddio am y tro cyntaf yn 2018. Bydd Llywodraeth Cymru, er hynny, yn cyhoeddi ei chanllawiau polisi diwygiedig o leiaf dri mis cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyflwyno adroddiad cynnydd 2017, sef 30 Medi (h.y. erbyn 30 Mehefin 2017), gan alluogi Awdurdodau Lleol i roi sylw i'r newidiadau i bolisi Rheoli Ansawdd Aer Lleol wrth lenwi'r templed presennol.

Oni chytunir i estyniad ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru, mewn achosion lle nad yw adroddiad cynnydd ar gyfer y flwyddyn fonitro 2016 neu gynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol cyfoes ar gyfer Ardal Rheoli Ansawdd Aer a ddatganwyd neu a ddiwygiwyd cyn dechrau 2016 wedi'i gyflwyno erbyn diwedd 2017, bydd cyfarwyddyd gan y Gweinidog yn cael ei gyhoeddi i'r Awdurdod Lleol o dan adran 85(3) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Cwestiwn 6.9 – Lleihau cysylltiad y boblogaeth â llygredd

6.9 *Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r canllawiau polisi newydd bwysleisio'r manteision gwell i iechyd y cyhoedd sy'n debygol o ddeillio o'r camau i leihau llygredd aer a sŵn mewn ffordd gyfannol ar draws ardal ehangach, a hynny y tu hwnt i'r rheini y disgwylir iddynt ddeillio o gamau nad ydynt ond yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth dechnegol â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.*

A ydych yn cytuno y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar bwysigrwydd lleihau llygredd aer a sŵn i'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd ochr yn ochr â chymryd camau'n lleol i fynd i'r afael â'r manau hynny lle mae'r llygredd ar ei waethaf?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd bron bob un o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, yng ngoleuni'r dystiolaeth bresennol ar gyfer maint effeithiau llygredd aer a sŵn ar iechyd y boblogaeth. Bydd Llywodraeth Cymru, felly, yn bwrw ymlaen â'r cynnig.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai Awdurdodau Lleol allu dangos gostyngiadau mewn llygredd aer a sŵn ar draws yr Awdurdod drwy fonitro a phriodoli'r gostyngiadau hynny i gamau gweithredu unigol. Gofynnir iddynt yn syml ystyried manteision posibl lleihau llygredd yn ehangach yn y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd, a chael eu gweld yn gwneud hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill wneud hyn hefyd, a dylai pawb chwilio am gyfleoedd i gydweithio.

Mae "sŵn" a "llygredd sŵn" yn cyfeirio at sŵn diangen neu niweidiol, ac nid at synau a groesewir megis synau natur neu gerddoriaeth yn y lle iawn. Wrth sôn am gamau gweithredu i leihau llygredd aer a sŵn, rydym yn cyfeirio'n bennaf at ffynonellau sy'n creu dau fath o lygredd aer, sef trafnidiaeth a rhai mathau o ddiwydiant yn bennaf. Ar gyfer y ffynonellau hynny byddai'n aneffeithlon anelu at fynd i'r afael â llygredd aer a sŵn fel materion cysylltiedig. Nid yw Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid ystyried mathau eraill o sŵn, megis adloniant a sŵn cymdogion, yn rhan o'r system Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Fodd bynnag, byddant yn cael eu hystyried yn adolygiad Llywodraeth Cymru o bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

Cwestiwn 6.10 – gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill

6.10 *Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r canllawiau polisi newydd bwysleisio'r angen i'r Byrddau Iechyd Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru helpu Awdurdodau Lleol i gryfhau effeithiolrwydd cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol a strategaethau lleol i leihau'r effaith ar y boblogaeth drwyddi draw. Gellid cynnig y cymorth hwn drwy weithio o fewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.*

A ydych yn cytuno y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar bwysigrwydd gwaith partneriaeth?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae consensws cryf ymhlith yr holl ymatebwyr o blaid y cynnig hwn, ynghyd â pheth amheuaeth ynghylch a fydd hyn yn digwydd yn ymarferol oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau cadarnhaol i wneud iddo ddigwydd.

Yn ogystal â chynhyrchu canllawiau polisi diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar gyfer Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Byrddau Iechyd Lleol Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Awdurdodau Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan eu hannog i gefnogi cyflawni'r broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol, yn enwedig wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Mae'n bwysig cydnabod cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill ar ansawdd aer lleol a rheoli sŵn gall ac y dylai ddigwydd hyd yn oed os nad yw'n flaenoriaeth i'r lleol gynllun lles a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gofyn am adborth rheolaidd gan swyddogion ansawdd aer yr Awdurdod Lleol ar lefel yr ymgysylltu a ddangoswyd gan sefydliadau partner, a bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'n gyson yr angen am ragor o ymyrraeth.

Cwestiwn 6.11 – canllawiau ategol

6.11 *Ar yr un pryd, bydd cyfeiriadau at dystiolaeth yn y canllawiau polisi interim presennol yn cael eu diweddarau, er enghraifft er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth fwy diweddaraf am effeithiau parthau 20 mya ar ansawdd aer lleol.*

A oes unrhyw feysydd eraill lle y tybiwch fod angen diweddarau ein canllawiau polisi presennol

(<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/airqualitypollution/airquality/guidance/?lang=cy>)?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos awydd clir am arweiniad ar yr hyn sy'n gweithio a'r ffordd orau i fynd ati, er mwyn ategu canllawiau presennol y llywodraeth ar agweddau polisi a thechnegol Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Mae cyrff arbenigol megis Grŵp Arbenigol ar Ansawdd Aer Llywodraeth y DU a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn chwarae rhan bwysig o ran cyflawni rhywfaint o hyn. I roi sylfaen glir ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru o ran polisi, bydd Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf yn cyhoeddi canllawiau polisi diwygiedig heb geisio llenwi pob un o'r bylchau hyn. Yna byddwn yn adeiladu ar y sylfaen hon, gydag adroddiad newydd blynyddol o gynnydd a thempledi cynllunio gweithredu a chanllawiau wedi'u diweddarau ar y broses ar gyfer gweithredu mesurau, fel parthau allyriadau isel. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, disgwylir i ganllawiau'r Grŵp Arbenigol ar Ansawdd Aer a NICE sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd (gan gynnwys cyngor y Grŵp Arbenigol ar effeithiau llystyfiant ar ansawdd aer) gael eu cwblhau. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod â Fforwm Ansawdd Aer Cymru pa ganllawiau eraill y dylid eu blaenoriaethu, i lenwi'r bylchau pwysicaf sy'n weddill.

Cwestiwn 6.12 – arian grant

6.12 *Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio'i chanllawiau ynghylch y grant refeniw sengl i Awdurdodau Lleol ar gyfer yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy, gan bwysleisio'i bod yn disgwyl gweld cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol effeithiol yn cael eu rhoi ar waith, lle bydd Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi'u datgan.*

A ydych yn cytuno y byddai'n help pwysleisio'r ffynhonnell ariannu bosibl hon i roi cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol ar waith?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae ymatebion Awdurdodau Lleol yn dangos bod eu gwaith ar ansawdd aer ar hyn o bryd wedi'i danariannu ond nid ydynt yn cefnogi neilltuo/clustnodi arian grant gan Lywodraeth Cymru at ddibenion penodol. Ni ddarparwyd tystiolaeth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i awgrymu y byddai unrhyw arian ychwanegol y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol yn cael ei neilltuo i gamau gweithredu ar ansawdd aer oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ei neilltuo at ddiben o'r fath, sy'n rhywbeth y mae Awdurdodau Lleol yn ei wrthwynebu.

Bwriad yr arian a fydd ar gael drwy'r grant refeniw sengl yw cefnogi rhoi cynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol ar waith i raddau mwy na'r gofynion statudol sylfaenol a osodir ar Awdurdodau Lleol gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi dweud na fyddai codi disgwyliadau o ran camau gweithredu ar ansawdd aer drwy ganllawiau Llywodraeth Cymru ar y grant refeniw sengl yn fuddiol. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod ansawdd aer yn cael sylw mwy amlwg yn y canllawiau grant eleni, ac yn tynnu sylw timau ansawdd aer at y grant refeniw sengl yn hytrach na dibynnu ar sianelau mewnol Awdurdodau Lleol yn unig i gyfleu ei fod yn bodoli. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'n fanwl a yw hyn yn arwain at fwy o ddyraniadau gan Awdurdodau Lleol ar gyfer gweithredu cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol.

Yn ychwanegol at y grant refeniw unigol, mae Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn datblygu cynigion ar gyfer cronfa gyfalaf seilwaith gwyrdd, a fydd yn cynnwys camau gweithredu i wella ansawdd aer fel un o'i flaenoriaethau.

Dylai rhai o'r camau sy'n ofynnol mewn perthynas ag ansawdd aer a sŵn gael eu cynnwys mewn blaenoriaethau cyllideb eraill o fewn Awdurdodau Lleol, megis teithio llesol, trafnidiaeth, cynllunio datblygiadau ac adfywio.

Cwestiwn 6.13 – penodau awdurdod lleol yn y cynllun gweithredu ynghylch sŵn

6.13 Wrth i gynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013-2018 nesáu at ei flwyddyn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gofyn i'r Awdurdodau Lleol mewn ardaloedd trefol mawr adolygu a diweddarau'r penodau a ysgrifennwyd ganddynt yn 2013, a oedd yn crynhoi nifer y cwynion a gafwyd am sŵn, lefelau presennol y gwasanaeth i'r cyhoedd, a'r ymrwymadau i ystyried sŵn mewn cynlluniau datblygu lleol ac mewn rhaglenni rhoi wyneb newydd ar y ffyrdd. Gofynnid i'r Awdurdodau Lleol hefyd asesu unrhyw newidiadau sydd o bosibl wedi bod dros y pum mlynedd diwethaf. Byddai hyn nid yn unig yn llywio cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru yn y dyfodol ond hefyd y cynlluniau llesiant, sydd hefyd i fod i gael eu paratoi yn 2018.

A ydych yn cytuno bod angen monitro'r hyn sydd wedi newid o ran rheoleiddio sŵn yn ein trefi a'n dinasoedd mwyaf dros y pum mlynedd diwethaf?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth eang i'r cynnig hwn, ac mae rhai yn awgrymu mynd ymhellach. Mae'r cynnig ymgynghori fel y'i drafftwyd ond yn berthnasol i chwe Awdurdod Lleol penodol sy'n rhan o gydgrynodau at ddibenion y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol, sef Caerdydd, Bro Morgannwg, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd a Chaerffili. Cynhyrchodd y chwe Awdurdod Lleol hyn benodau unigol o'u gwirfodd ar gyfer y cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013-2018, a oedd nid yn unig yn cynnwys y mathau o sŵn a nodir yn y Gyfarwyddeb a'r meysydd sydd o fewn ffiniau'r gydgrynodau, ond a oedd hefyd yn ystyried mathau eraill o sŵn a maint daearyddol llawn eu tiriogaethau. Dim ond y chwe Awdurdod Lleol hyn sydd bellach mewn sefyllfa i gynhyrchu penodau wedi'i diweddarau y gellir eu cymharu â'r penodau a gynhyrchwyd pum mlynedd ynghynt. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol eraill o 2018 ymlaen. Er bod y Gyfarwyddeb ond yn canolbwyntio ar yr ardaloedd trefol mwyaf a'r prif goridorau trafnidiaeth, byddai'n well gan Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull Cymru gyfan o lunio polisi sŵn, hyd yn oed os mai dim ond ar sail wirfoddol y byddai hynny.

Mae synergeddau posibl rhwng y gwaith hwn a chynhyrchu asesiadau llesiant lleol Byrddau Gwasanaethau Lleol. Er mai prin yw'r drafftiau cynnar o asesiadau llesiant lleol a welwyd gan Lywodraeth Cymru sydd wedi rhoi llawer o sylw i lygredd sŵn, mae asesiad drafft Bwrdd Gwasanaethau Lleol Torfaen yn cynnwys adran ar sŵn nad yw'n annhebyg i'r penodau a gynhyrchwyd ar gyfer y cynllun gweithredu ynghylch sŵn blaenorol gan y chwe Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r gydgrynodau.

Cwestiwn 6.14 – rowndiau mapio sŵn cenedlaethol yn y dyfodol

6.14 *Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi mwy o rôl i Gyfoeth Naturiol Cymru o ran darparu a dehongli mapiau sŵn cenedlaethol Cymru, ochr yn ochr â'i ddyletswyddau statudol newydd i baratoi SoNaRR a datganiadau ardal. Serch hynny, nid oes modd penderfynu ynglŷn â manylion unrhyw fapiau sŵn cenedlaethol yn y dyfodol nes inni wybod a fydd y Deyrnas Unedig yn dal i orfod cydymffurfio â Chyfarwydddeb Sŵn Amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd neu beidio.*

A ydych yn cytuno y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymwneud mwy ag unrhyw rowndiau mapio sŵn cenedlaethol yn y dyfodol?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ei ymateb dywed Cyfoeth Naturiol Cymru nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i gymryd mwy o ran yn y gwaith o gyflawni a dehongli mapiau sŵn cenedlaethol Cymru (rôl y mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymgymryd â hi yn ddiweddar yn Lloegr), yn amodol ar gael cyllid a hyfforddiant priodol. Ar y llaw arall, mae ymatebion Awdurdodau Lleol i'r cynnig yn amlygu rôl gyfyngedig Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â sŵn hyd yma o gymharu â phrofiad eu swyddogion iechyd yr amgylchedd eu hunain.

Ar hyn o bryd mae mapio sŵn cenedlaethol yn gyfyngedig i sŵn sy'n cael ei greu gan drafnidiaeth a diwydiant mawr fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwydddeb Sŵn Amgylcheddol, ac mae'n cael ei gyflawni a'i ddadansoddi bob pum mlynedd, nid gan Awdurdodau Lleol, ond gan gontractwyr ar ran Llywodraeth Cymru. Ni fyddai trosglwyddo'r cyfrifoldebau hyn o Lywodraeth Cymru i Gyfoeth Naturiol Cymru, y mae ganddo eisoes brofiad sylweddol mewn meysydd eraill o fodelu a mapio cyfrifiadurol amgylcheddol ar raddfa fawr, felly yn arwain at unrhyw leihad yn rôl yr Awdurdodau Lleol mewn perthynas â sŵn. Pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud yn fwy â sŵn amgylcheddol drwy waith fel hyn gall fod mewn sefyllfa well i gefnogi gwaith yr Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Ni fydd y cylch nesaf o fapio sŵn o dan y ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei gynnal tan 2022, felly nid oes angen gwneud penderfyniad terfynol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn ddefnyddiol casglu barn gychwynnol ar y pwnc.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn ddiddorol bod rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu y gellid ehangu mapiau sŵn cenedlaethol i ystyried mathau eraill o sŵn heblaw trafnidiaeth a diwydiant mawr. Yn dibynnu ar y graddau yr ydym yn parhau i gael eich rhwymo gan y gofynion y Gyfarwydddeb yn y dyfodol, efallai y bydd cwmpas i ddefnyddio'r gyllideb mapio sŵn cyfyngedig Llywodraeth Cymru i edrych ar ffynonellau nad wedi mapio yn flaenorol, fel adloniant a sŵn cymydog, efallai yn eiledu efo asesiadau cenedlaethol o sŵn trafnidiaeth. Fodd bynnag, fel gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo dyletswyddau rheoli prosiect i Gyfoeth Naturiol Cymru, nid oes angen rhuthro i wneud penderfyniad ar hyn o bryd.

Cwestiwn 6.15 – asesiadau o lesiant lleol

6.15 *Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ychwanegu, drwy reoliadau, adroddiadau cynnydd blynyddol Awdurdodau Lleol am ansawdd aer a mapiau sŵn cenedlaethol at y rhestr o bethau yn adran 38(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y bydd yn rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried wrth asesu llesiant lleol.*

A ydych yn cytuno y dylid ystyried adroddiadau blynyddol Awdurdodau Lleol am ansawdd aer a mapiau sŵn cenedlaethol wrth iddynt asesu llesiant lleol, yn ogystal â'r dangosydd cenedlaethol yn Atodiad A?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd yr ymatebion i'r cynnig hwn i gyd yn ffafriol, ac mae'r ystyriaeth o dystiolaeth ynghylch ansawdd aer a sŵn yn y rownd gyntaf o asesiadau drafft o lesiant lleol wedi bod yn anghyson. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ychwanegu'r adolygiadau a'r asesiadau o ansawdd aer sy'n ofynnol o dan adran 82 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a'r mapiau sŵn strategol sy'n ofynnol o dan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 at y rhestr yn adran 38(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o bethau y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried wrth baratoi asesiadau o lesiant lleol.

Mewn ymateb i bwynt a godwyd gan y Music Venue Trust, nid yw'r mapiau sŵn cenedlaethol yn cynnwys sŵn sy'n deillio o leoliadau adloniant.

Adolygu polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyniwyd ymatebion manwl ar bolisi a chanllawiau cynllunio, a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn yr adolygiad sydd ar y gweill o Bolisi Cynllunio Cymru a chynhyrchu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf Cymru.

Roedd llawer o'r ymatebion a ddaeth i law yn ymwneud â chynghor technegol yn hytrach na pholisi, gan gynnwys galw am ddiweddaru TAN11: Sŵn a chynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar gynllunio mewn perthynas ag ansawdd aer. Gall canllawiau chwarae rhan bwysig wrth atal lefelau annerbyniol o lygredd aer a sŵn, fel canlyniad o ddatblygiad a fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn maes o law.

Sylwadau eraill a ddaeth i law

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyniwyd amrywiaeth eang o sylwadau ychwanegol nad oeddent yn ymwneud â'r 15 cynnig penodol yn y ddogfen ymgynghori nac â materion cynllunio. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau gan Calor ar fanteision nwy petrolewm hylifedig i ansawdd aer, gan yr RSPCA ynghylch tân gwyllt a chŵn yn cyfarth, a chan Ymddiriedolaethau Natur Cymru mewn perthynas â manteision coed ac effeithiau llygredd aer ar gynefinoedd naturiol sensitif. Mae Llywodraeth Cymru wedi bwydo'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru ar fanteision coed i adolygiad presennol y Grŵp Arbenigol ar Ansawdd Aer o effeithiau llystyfiant ar ansawdd aer.

Awgrymodd Cyngor Sir Caerfyrddin ddatblygu ymhellach y grŵp rheoleiddwyr sŵn a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru ymhellach, gan ei roi ar sylfaen fwy ffurfiol o bosibl fel Fforwm Ansawdd Aer Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn yr aelodau ar ddatblygu'r grŵp ymhellach pan fydd yn cyfarfod nesaf.

Defnyddiodd Awdurdodau Lleol ac eraill yr ymgynghoriad i dynnu sylw at yr angen am addysg a chodi ymwybyddiaeth o weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, gan gynnwys gyrwyr a phlant ysgol, ynglŷn â materion yn ymwneud ag ansawdd aer a sŵn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid eraill i fwrw ymlaen ag ymgyrch addysgol ar ansawdd aer ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd.

Yn ei ymateb, awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gallai'r system Rheoli Ansawdd Aer Lleol fod yn fwy effeithiol pe bai'n cael ei hintegreiddio gyda pholisi ac ymarfer iechyd y cyhoedd ehangach. O ystyried y cysylltiadau rhwng llygredd yn yr aer a ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd, mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn briodol ystyried risgiau llygredd aer a sŵn ac atebion yn y cyd-destun iechyd cyhoeddus ehangaf posibl er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleodd i weithio ar y cyd tuag at amcanion cyffredin.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl faterion a godwyd uchod yn fanylach, a bydd penderfyniadau eraill yn cael eu gwneud maes o law.